DIAL 999
GALW

# Fire, Fire!
# Tân, Tân!

The Borough Council established the town's first professional fire brigade in 1904. Each year the superintendant presented a report on the brigade to the council.

Superintendant Hayden presented the fourth annual report on the Borough Fire Brigade in 1910:

Number of calls received to fires for the year ending 31st March 1910: 24 (compared to 30 the previous year). Eight call outs to fires outside the borough. Time spent extinguishing fires: 106 hours and 5 minutes.

Brigade strength: 1 Superintendant, 1 Assistant Superintendant, 3 engineers and 7 firemen. There had been 16 drills during the year, totalling some 25 hours and 42 minutes of training.

Their appliances included:

- 1 steam fire engine
- 1 manual fire engine
- 1 fire escape
- 1 hose cart
- 8 scaling ladders
- 1,600 yards of canvas hose
- 4 lengths of leather hose
- 6 canvas buckets
- 7 stand pipes
- 3 hand pumps
- 1 hand chemical machine (a kind of fire extinguisher)
- 2 four in hand sets of quick hitching harness (to attach horses to the engines)
- 15 copper lamps
- 7 torches
- 1 life line, 100 feet
- 1 jumping sheet

All the kit was in good order except the hand hose cart, which was too heavy for the team to pull to a fire at any distance from the town centre.

Superintendant Hayden's report reflected the change in culture that accompanied the formation of a professional fire brigade. The era of the amateur was over.

Sefydlodd Cyngor y Fwrdeistref frigâd dân broffesiynol gyntaf y dref yn 1904. Bob blwyddyn byddai'r uwcharolygydd yn cyflwyno adroddiad ar y frigâd i'r cyngor.

Cyflwynodd yr Uwcharolygydd Hayden y pedwerydd adroddiad blynyddol ar Frigâd Dân y Fwrdeistref yn 1910:

Nifer y galwadau a dderbyniwyd at danau am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 1910: 24 (mewn cymhariaeth â 30 y flwyddyn flaenorol). Roedd wyth galwad allan at danau oddi allan i'r fwrdeistref. Amser a dreuliwyd yn diffodd tanau: 106 awr a 5 munud.


Niferoedd y Frigâd: 1 Uwcharolygydd, 1 Uwcharolygydd Cynorthwyol, 3 peiriannydd a 7 diffoddwr tân. Bu 16 o ddriliau yn ystod y flwyddyn, yn dod i ryw 25 awr a 42 munud o hyfforddiant.

Ymhlith eu taclau oedd y canlynol:

- 1 injan dân ager
- 1 injan dân law
- 1 ddihangfa dân
- 1 gert pibell ddŵr
- 8 ysgol ddringo
- 1,600 llath o bibell ddŵr gynfas
- 4 darn o bibell ddŵr ledr
- 6 bwced gynfas
- 7 peipen ddŵr
- 3 pwmp llaw
- 1 peiriant cemegol llaw (math o ddiffoddwr tân)
- 2 set o harneisiau parod pedwar ceffyl (i gysylltu ceffylau â'r peiriannau)
- 15 lamp gopr
- 7 torsh
- 1 rhaff achub, 100 troedfedd
- 1 cynfas neidio


Roedd yr holl daclau mewn cyflwr da heblaw cert law'r bibell ddŵr, oedd yn rhy drwm i'r tîm ei thynnu at dân unrhyw bellter o ganol y dref.

Roedd adroddiad yr Uwcharolygydd Hayden yn adlewyrchu'r newid diwylliant a ddaeth gyda ffurfio brigâd dân broffesiynol. Roedd oes yr amatur ar ben.



*Wrexham Fire Brigade, Guildhall Square, Wrexham, 1910. The steamer fire engine 'Victoria' is on the left, the 'Quinta' manual pump engine on the right and 'Simonis' wheeled fire escape in the middle.*
*© Denbighshire Archives, 101/265*

*Brigâd Dân Wrecsam, Sgwâr Neuadd y Dref, Wrecsam, 1910. Mae'r injan dân ager 'Victoria' ar y chwith, y peiriant pwmpio llaw 'Quinta' ar y dde a'r ddihangfa dân olwynog 'Simonis' yn y canol.*
*© Archifdy Sir Ddinbych, 101/265*



*Wrexham Fire Brigade with the steamer fire engine 'Victoria' in the foreground. The Volunteers used the Gresford Flash and the mill pool at Felin Puleston to test the pumps on their engines.*
*© Denbighshire Archives, 101/268*

*Brigâd Dân Wrecsam gyda'r injan dân ager 'Victoria' yn y blaendir. Byddai'r Gwirfoddolwyr yn defnyddio Gresford Flash a'r pwll yn Felin Puleston i brofi'r pympiau ar eu peiriannau.*
*© Archifdy Sir Ddinbych, 101/268*

wrexham
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
wrecsam

AMGUEDDFA ACHREDEDIG
ACCREDITED MUSEUM

Wrexham County Borough
Museum & Archives
Amgueddfa ac Archifdy
Bwrdeistref Sirol Wrecsam